CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT

DYDD Mercher, 18 Mawrth 2020

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: G. Davies (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Gyfarfod Adfywio, Neuadd y Sir, Caerfyddin - Neuadd y Sir - 9.00 - 9.15 yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 23AIN IONAWR, 2020

PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 23 Ionawr 2020, gan ei fod yn gywir.

3. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL.

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/Aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Hefyd dywedwyd bod Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-

Ysgol Gynradd	Penodiadau
Bancffosfelen (1 swydd wag - 1 enwebiad)	Mr A Barlow
Brynsaron (3 swydd wag - 2 enwebiad)	Mr E Jones Y Cynghorydd Ken Howell
Dafen (1 swydd wag - 1 enwebiad)	Mrs L M Lloyd
Hafodwenog (1 swydd wag - 1 enwebiad)	Mrs L Evans
Llangadog (1 swydd wag - 1 enwebiad)	Mrs M Haines-Evans

Llan-non (1 swydd wag - 1 enwebiad)	Mrs L Watkins
Ysgol Gymraeg Rhydaman (1 swydd wag - 1 enwebiad)	Mrs H Garland
Saron (1 swydd wag - 1 enwebiad)	Mr J. Edwards
Y Bedol (1 swydd wag - 1 enwebiad)	Dr Rev C Jones
Y Ddwylan (1 swydd wag - 1 enwebiad ac 1 o 24 Hydref)	Y Cynghorydd Hazel Evans
Ysgol Uwchradd	**Penodiadau**
Coedcae (2 swydd wag - 2 enwebiad)	Mr N Furneaux Mrs J Sharp
Dyffryn Aman (1 swydd wag o 5 Medi 2020 - 1 enwebiad)	Y Cynghorydd David Jenkins
Dyffryn Taf (1 swydd wag - 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Sue Allen

4. PENODI AELODAU'R FFORWM DERBYNIADAU ADDYSG

Penderfynwyd gwneud y penodiadau canlynol i'r Fforwm Derbyniadau Addysg, am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd, yn unol â'r cyfansoddiad a bennwyd gan y Bwrdd Gweithredol yn ei gyfarfod ar 17 Medi, 2012:

Rhiant Lywodraethwr:

Mr Anthony Enoch, Ysgol Wirfoddol Eglwysig Y Model yng Nghymru

_____ _____

AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL **DYDDIAD**